

At Weinidogion Cymru,

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Dyletswyddau Hysbysu

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod mae adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2018-2019.

<p>Y camau a gymrwyd i hyrwyddo teithiau llesol</p>	<ul style="list-style-type: none">- Mae ein Map Rhwydwaith Integredig (INM) a Map Llwybrau Presennol (ERM) ar gael i'r cyhoedd trwy ein gwefan gorfforaethol- Ar y cyd â Llywodraeth Cymru daliwn i ddarparu hyfforddiant beicio lefel 1, 2 a 3 i ddisgyblion blynyddoedd 6 a 7. Lle bo modd mae'r hyfforddiant yn digwydd ar ein rhwydwaith teithio llesol presennol gan helpu rhoi ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith i'r disgyblion. Caiff copïau o'n mapiau teithio llesol, a gynhyrchwyd ar y cyd â Sustrans, eu dosbarthu i'r disgyblion fel rhan o'r hyfforddiant. Yn 2018-19 n hyfforddwyd 592 o ddisgyblion gennym.- Sgiliau Sgwter – Cynllun yn hyrwyddo teithio llesol diogel a wnaed ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Hyfforddwyd tua 750 o ddisgyblion yn 2018/19.- Ar y cyd â Llywodraeth Cymru daliwn i ddarparu hyfforddiant Sgiliau Cerddwyr Kerbcraft. Yn 2018-19 hyfforddwyd 406 o ddisgyblion gennym. Lle bo modd mae'r hyfforddiant yn digwydd ar ein rhwydwaith teithio llesol presennol gan helpu rhoi ymwybyddiaeth o'r rhwydwaith i'r disgyblion.
---	--

<p>Y camau a gymrwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Gwnaethom gynnig llwyddiannus am gyllid LIC yn ystod 2018/19, ar ffurf SRIC, LTF ac ATF, i gyflwyno llwybrau Teithio Llesol. Cyflwynwyd y llwybrau canlynol yn ystod 2018/19: <ul style="list-style-type: none"> • Splash Point i Spruce Avenue (LTF) INM-Den-RHY-C040 – Trosi palmant presennol yn llwybr teithio llesol rhannog yn cysylltu NCN 5 gyda chylchoedd preswyl ac ysgolion lleol yn y Rhyl. • Gwelliannau Di-dor Rhuthun (LTF) – Gwelliannau i ERM-Denb-Ruthin-C010. Roedd y cynllun yn cynnwys gwelliannau i gyffyrdd, gwelliannau i lochesau cerddwyr a gwelliannau i linell y llwybr teithio llesol presennol. • Glasdir i Heol y Parc (SRIC) INM-Den-Ruth-SUP010 (Ffordd Dinbych – Heol y Parc) Trosi hawl dramwy gyhoeddus yn llwybr teithio llesol rhannog sy'n creu dolen allweddol rhwng cylchoedd preswyl, ysgolion lleol a Chanol Tref Rhuthun.
<p>Costau a ysgwyddwyd am lwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a wnaed yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Splash Point i Spruce Avenue (LTF) - £248,337 - Gwelliannau Di-dor Rhuthun (LTF) - £75,014 - Glasdir i Heol y Parc (SRIC) - £156,107

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):


Gwariant arwyddol ar lwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gyllidwyd yn llawn neu'n rhannol gan eraill.	- Cyllidwyd uwchraddio llawn i'r llwybr teithio llesol rhannog presennol ar Sydenham Avenue yn y Rhyl gan ddatblygwr datblygiad adwerthu Ocean Plaza. Mae'r llwybr yn cysylltu NCN 5 gyda chylchoedd preswyl mawr yng Ngorllewin y Rhyl. Roedd y gwelliannau hefyd yn cynnwys cyflwyno croesfan gerddwyr reoledig newydd ar y B5115 (Rhodfa'r Gorllewin).
Hyd llwybrau newydd: - Cerdded - Beicio - Rhannog	- 1058m rhannog
Hyd llwybrau a wellwyd: - Cerdded - Beicio - Rhannog	- 1368m rhannog
Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell	- Cyfleusterau newydd i barcio beiciau yn SC2, Parc Dŵr newydd Cyngor Sir Ddinbych yn y Rhyl.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Amherthnasol

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac ar gael fel copi caled ar gais, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

Judith Greenhalgh